Pecyn dogfennau cyhoeddus

# Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad:
**Ystafell Bwyllgora 2 – y Senedd**

Dyddiad:
**Dydd Llun, 30 Ebrill 2012**

Amser:
**14:30**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch a:


**Steve George**
Clerc y Pwyllgor
029 2089 8242
PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

**Olga Lewis**
Diprwy Glerc
029 2089 8154


## Agenda

### 1. Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant

### 1. Offerynnau nad ydynt yn cynnwys unrhyw faterion i'w codi o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3
### 2.

Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol

**CLA128 - Gorchymyn y Cwricwlwm Cenedlaethol (Trefniadau Asesu wrth Dderbyn i'r Cyfnod Sylfaenol) (Cymru) (Dirymu) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'i gwnaed ar 23 Mawrth 2012. Fe'i gosodwyd ar 27 Mawrth 2012. Yn dod i rym ar 18 Ebrill 2012.

**CLA132 - Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) (Diwygio) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 26 Mawrth 2012. Fe'u gosodwyd ar 28 Mawrth 2012. Yn dod i rym ar 18 Ebrill 2012.

**CLA135 – Rheoliadau Hylendid Bwyd (Cymru) (Diwygio) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 28 Mawrth 2012. Fe'u gosodwyd ar 30 Mawrth 2012. Yn dod i rym ar 1 Mai 2012.

**CLA136 – Rheoliadau Diogelwch Tân (Galluoedd Cyflogeion) (Cymru) 2012**
Y weithdrefn negyddol. Fe'u gwnaed ar 8 Ebrill 2012. Fe'u gosodwyd ar 16 Ebrill 2012. Yn dod i rym ar 12 Mai 2012.

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol</u>

**CLA129 – Gorchymyn Personau Cydnabyddedig (Cosbau Ariannol) (Penderfynu Trosiant) (Cymru) 2012**
Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad y'i gwnaed. Ni nodwyd y dyddiad y'i gosodwyd. Yn dod i rym ar 9 Mai 2012.

**CLA130 – Rheoliadau Iechyd Meddwl (Darpariaeth Ranbarthol) (Cymru) 2012**
Y weithdrefn gadarnhaol. Ni nodwyd y dyddiad y'u gwnaed. Ni nodwyd y dyddiad y'u gosodwyd. Dyddiad dod i rym yn unol â rheoliad 1 (2).

**CLA137 – Rheoliadau Iechyd Meddwl (Atgyfeiriadau Gofal Sylfaenol a Chymhwystra i Gynnal Asesiadau Iechyd Meddwl Sylfaenol) (Cymru) 2012**

Y weithdrefn gadarnhaol. Dyddiad y'u gwnaed 2012. Ni nodwyd y dyddiad y'u gosodwyd. Yn dod i rym ar 1 Hydref 2012.

## 3. Offerynnau sy'n cynnwys materion i'w codi gyda'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol</u>

Dim

<u>Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol</u>

Dim

## 4. Gohebiaeth y Pwyllgor

**CLA110 – Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012** (Tudalennau 1 – 3)
**Papurau:**
**CLA(4)-09-12(p1)** – Llythyr gan y Cadeirydd i'r Gweinidog, dyddiedig 16 Mawrth 2012
**CLA(4)-09-12(p2)** – Ymateb y Gweinidog, dyddiedig 31 Mawrth 2012 (Saesneg yn unig)

## 5. Ymchwiliadau'r Pwyllgor: Ymchwiliad i sefydlu awdurdodaeth ar wahân i Gymru

**Yr Athro Iwan Davies, LLB (Cantab), LLM, PhD (Cymru) o Gray's Inn, Bargyfreithiwr, Dirprwy Is-Ganghellor, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe**

Yr Athro Iwan Davies, Dirprwy Is-Ganghellor, Ysgol y Gyfraith, Prifysgol Abertawe

## 6. Dyddiad y cyfarfod nesaf

## 14 Mai 2012

Papur i'w nodi
CLA(4)-08-12 - Adroddiad ar y cyfarfod a gynhaliwyd ar 23 Ebrill 2012

## Trawsgrifiad

Trawsgrifiad o'r cyfarfod.

## 7. Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y canlynol:

Caiff Pwyllgor benderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod neu unrhyw ran o gyfarfod:
(vi) lle mae'r Pwyllgor yn cyd-drafod cynnwys, casgliadau neu argymhellion adroddiad y mae'n bwriadu ei gyhoeddi

## 8. Trafod y dystiolaeth a gyflwynwyd i'r ymchwiliad hyd yma

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Carl Sargeant AC
Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Llywodraeth Cymru
5ed Llawr
Tŷ Hywel
Bae Caerdydd

16 Mawrth 2012

Annwyl Weinidog

**CLA110 - Gorchymyn Awdurdodau Lleol Ynys Môn (Newid Blynyddoedd Etholiadau Cyffredin) 2012**

Bu'r Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol yn trafod y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 12 Mwrth 2012 a chytunwyd y dylwn ddwyn i'ch sylw adroddiad y Pwyllgor ar rinweddau'r Rheoliadau, a gyhoeddwyd o dan Reol Sefydlog 21.3.

Cytunodd y Pwyllgor y byddai'n gwahodd y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r Rheoliadau hyn ar y sail "ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad" (Rheol Sefydlog 21.3(ii)).

Gosodwyd adroddiad y Pwyllgor ar y Rheoliadau yn y Swyddfa Gyflwyno ar 15 Mawrth, ac mae wedi'i atodi er gwybodaeth. Byddwn yn ddiolchgar pe gallech ystyried yr adroddiad a rhoi gwybod i'r Pwyllgor beth yw eich ymateb.

Rwy'n anfon copi o'r adroddiad hwn at y Prif Weinidog er gwybodaeth, ac rwyf hefyd wedi gwneud trefniadau i ddwyn yr adroddiad a'r llythyr hwn i sylw Aelodau'r Cynulliad.

Yn gywir

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / Email: olga.lewis@wales.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

**David Melding AC**
Cadeirydd

**Carl Sargeant AC / AM**
**Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau**
**Minister for Local Government and Communities**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref CLA110
Ein cyf/Our ref qA988616

David Melding AM
Chair Constitution and Legislative
Affairs Committee
National Assembly for Wales
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

31 March 2012

Dear David

**CLA110 – The Isle of Anglesey Local Authorities (Change to the Years of Ordinary Elections) Order 2012**

Thank you for your letter of 16 March 2012 and copy of the Constitutional and Legislative Affairs Committee's report on the above Order.

The Committee's report highlighted the point that the Order has the effect of putting Anglesey on a different electoral cycle from other Welsh counties. The Explanatory Memorandum explained that a consultation was taking place on the proposal to delay the election of county and community councillors in all local authorities in Wales from 2016 to 2017.

That consultation has now closed and I recently announced my decision that I intended to introduce an Order to delay the election of county and community councillors in Wales by one year. The effect of this will be that the election of councillors on the Isle of Anglesey will be brought back into synchronisation with the elections of councillors across Wales.

You will also be aware of the debate that took place on 21 March following the motion by Peter Black AM and Aled Roberts AM to annul the Order. There is nothing further I can add to what I said in that debate.

I am grateful for the Committee's consideration of the Order.

**Carl Sargeant AC / AM**
Y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau
Minister for Local Government and Communities

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

English Enquiry Line 0845 010 3300
Llinell Ymholiadau Cymraeg 0845 010 4400
Correspondence.Carl.Sargeant@wales.gsi.gov.uk

*Wedi'i argraffu ar bapur wedi'i ailgylchu (100%)*
*Printed on 100% recycled paper*

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Adroddiad: CLA(4)-07-12 : 23 Ebrill 2012**

**Mae'r Pwyllgor yn cyflwyno'r adroddiad a ganlyn i'r Cynulliad:**

**Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA123 - Rheoliadau'r Gwasanaeth Iechyd Gwladol (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Cymru) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 9 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd ar:** 14 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 9 Ebrill 2012.

**CLA126 - Rheoliadau Cymorth Gwladol (Symiau at Anghenion Personol) (Asesu Adnoddau a Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 14 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd ar:** 16 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 9 Ebrill 2012.

**CLA127 - Gorchymyn Datblygu Digolllediad Tir (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 15 Mawrth 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 16 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 6 Ebrill 2012.

**CLA131 - Gorchymyn y Gwasanaethau Tân ac Achub (Fframwaith Cenedlaethol) (Cymru) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 24 Mawrth 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 27 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 20 Ebrill 2012.

**CLA133 - Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Diffoddwyr Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.

**Fe'i gwnaed ar:** 28 Mawrth 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 29 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2012.

**CLA134 - Gorchymyn Cynllun Pensiwn y Dynion Tân (Cymru) (Cyfraniadau) (Diwygio) 2012**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'i gwnaed ar:** 28 Mawrth 2012.
**Fe'i gosodwyd ar:** 29 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 1 Ebrill 2012.

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad cadarnhaol**

**Dim**

**Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reolau Sefydlog 21.2 a 21.3**

**Offerynnau'r weithdrefn penderfyniad negyddol**

**CLA124 - The Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012 (Saesneg yn unig)**
**Gweithdrefn:** Negyddol.
**Fe'u gwnaed ar:** 12 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd gerbron y Senedd ar:** 15 Mawrth 2012.
**Fe'u gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru ar:** 15 Mawrth 2012.
**Yn dod i rym ar:** 6 Ebrill 2012.

Cytunodd y Pwyllgor ar yr Adroddiad o dan Reol Sefydlog 21.2 a Rheol Sefydlog 21.3 ar yr offeryn statudol hwn, sydd wedi'i atodi fel Atodiad 1.

**Busnes arall**

**Gohebiaeth y Pwyllgor**

**Ymgynghoriad ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru**

Nododd y Pwyllgor y gwahoddiad gan y Cwnsler Cyffredinol i ymateb i ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar awdurdodaeth gyfreithiol ar wahân i Gymru, a gafodd ei lansio ar 27 Mawrth 2012.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**23 Ebrill 2012**

**Atodiad 1**

**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**(CLA(4)-08-12)**

**CLA124**

**Adroddiad y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**

**Teitl: The Controlled Waste (England and Wales) Regulations 2012**

**Gweithdrefn: Negyddol**

Mae'r offeryn hwn yn dirymu ac yn disodli Controlled Waste Regulations 1992, ac yn cael ei wneud ar sail gyfansawdd gydag Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig. Mae'n nodi gwastraff fel gwastraff tŷ, gwastraff diwydiannol a gwastraff masnachol, a hefyd yn rhestru'r mathau o wastraff y gall awdurdodau lleol godi tâl am ei gasglu a chael gwared arno. Mae'r offeryn yn galluogi awdurdodau lleol (fel awdurdodau casglu gwastraff o dan Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990) i godi tâl o dan adran 45 o'r Ddeddf honno er mwyn cael gwared ar wastraff sy'n dod o ystod ehangach o adeiladau annomestig nag a ganiateir gan Reoliadau 1992; mae hefyd yn cyfnerthu gwelliannau'r gorffennol ac yn cynnwys rhai diffiniadau a dosbarthiadau sydd wedi'u diwygio a'u diweddaru i wella eglurder y Rheoliadau a sicrhau eu bod yn gyson â deddfwriaeth ddiweddar arall. Mae hefyd yn darparu bod sbwriel a gwastraff penodol yn cael eu trin o dan Ran 2 o Ddeddf Diogelu'r Amgylchedd 1990 yn yr un ffordd â gwastraff sy'n cael ei gasglu o dan adran 45 o'r Ddeddf.

**Materion technegol: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 (ix) mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn – nad yw wedi'i wneud yn Gymraeg ac yn Saesneg.

**Rhinweddau: craffu**

Nodwyd y pwyntiau a ganlyn i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 (ii) mewn perthynas â'r offeryn drafft hwn – ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

Bydd y Rheoliadau hyn yn galluogi awdurdodau lleol i godi tâl am gasglu a chael gwared ar wastraff sy'n dod o adeiladau annomestig (ac eithrio siopau elusen sy'n gwerthu nwyddau sydd wedi'u rhoddi a sefydliadau 'ail ddefnyddio' oherwydd bod eu gwastraff wedi dod o adeiladau domestig, a neuaddau pentref a ddefnyddir ar gyfer

cyfarfodydd cyhoeddus) tra ar hyn o bryd maent ond yn codi tâl am gasglu'r gwastraff. Mae'r rheoliadau hefyd yn galluogi tâl i gael ei godi ar wastraff sy'n cael ei gasglu o adeiladau a ddefnyddir gan sefydliadau yn yr un modd ag ar gyfer gwastraff nad yw'n beryglus a gynhyrchir ar y safle.

**David Melding AC**
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

**23 Ebrill 2012**